

Gwasanaeth  
Teuluol  
Rhannu'r  
Newyddion da  
am Iesu yn  
Uganda

Carodd Duw y Byd 2014/15

## **Gwasanaeth Teuluol - Rhannu'r newyddion da am Iesu yn Uganda**

Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i seilio ar ymweliad 4 o bobl ifanc o Gymru i Uganda ym mis Gorffennaf 2014.

Cawson nhw'u gwahodd gan yr elusen Gristnogol, Tearfund, i ymweld â phrosiect COBAP yn Kampala. Mae COBAP (rhaglen AIDS yn y gymuned) yn ymateb lleol i HIV/Aids yn un o ardaloedd slym yn Rhanbarth Dwyrain Kampala. Ceir gwybodaeth fanylach ynglŷn â'r prosiect hwn ar ddiwedd y gwasanaeth.

Fe fyddwn hefyd yn cyflwyno'r gwaith mae Cyfieithwyr Beibl Wycliffe wedi'i wneud, ac yn parhau i'w wneud, er mwyn sicrhau fod y Beibl ar gael ymhob un o 43 iaith Uganda.

Mae cyflwyniad Powerpoint a ffilm fer i'w defnyddio – gellir eu lawrlwytho o wefan Dorcas. (Tudalen Adnoddau – ffolder Gwasanaeth Teuluol)

### ❖ Croeso

Rhowch groeso i bawb gyda'r geiriau:

Yesu nankunda (Yeah – sw nankwnda) – Mae Iesu'n fy ngharu

Tumukunde (too-moo-koon-day) – Dewch I ni ei garu ef

Eglurwch ystyr y geiriau hyn sydd mewn un o'r ieithoedd sy'n cael eu siarad yn Uganda - Runyankore, ac y byddwn yn ystod y gwasanaeth hwn, yn dysgu am fywyd yn Uganda a sut mae Cristnogion yn Uganda'n rhannu cariad Iesu gydag eraill.

### ❖ Emyn a gweddi

#### ❖ Cyflwyno thema'r gwasanaeth

Cwis Mapiau'r Byd – y sleid olaf ydi llun o blant Uganda.

*Y baneri a ddangosir ydi rhai Tseina Israel, U.D.A., Gweriniaeth Iwerddon, Sweden, Uganda*

Esboniwch ein bod, yn y gwasanaeth hwn, am ddysgu ychydig am Uganda, am fywyd yno ac am y Cristnogion sy'n byw yno.

#### ❖ Dysgwch ychydig o ymadroddion ieithoedd Uganda

Petaech chi'n blentyn yn Uganda heddiw, fe fyddwch yn dysgu siarad a sgwennu

Saesneg yn yr ysgol, ond gartref fe fyddwch yn siarad iaith arall gyda'ch teulu. Mae 43 o ieithoedd yn Uganda. Mae'r ymadroddion yma yn iaith .....

ny'omwana wa Ruhanga – Plentyn Duw wyf fi *dywedwch pob llythyren fel petaech yn Cymraeg*

Twesige Ruhanga Omukama waitu – Dewch i ni ymddiried yn yr Arglwydd

Ruhanga nasasire (naa-saa-see-rrey) – Mae Duw wedi maddau fy mhechod

❖ Cyflwyniad i'r wlad – Power Point

*Mae'r sgrïpt ar gael ar waelod y sleidiau ar y Cyflwyniad ei hun, a hefyd ar ddiwedd hy gwasanaeth.*

❖ Her y can dŵr.

*Ar gyfer hwn, fe fydd angen cynhwysydd sy'n dal 20 litr o hylif. Llenwch y cynhwysydd ond ei gadw allan o'r golwg hyd nes ar ôl y cyflwyniad.*

Be oedd un o'r dyletswyddau a oedd gan blant i'w gwneud os oedden nhw'n byw yng nghefn gwlad?

Mae'n rhaid iddyn nhw gario dŵr. Yn ne orllewin Uganda, mae dwy chwaer, Doreen a Jouvillet, yn dringo 3 cilomedr i fyny mynydd serth yn cludo 20 litr o ddŵr. *Rhowch gymhariaeth leol er mwyn helpu'r plant i wybod pa mor bell ydi hynny.* Maen nhw'n cerdded yn droednoeth am 4 awr pob dydd i fyny ac i lawr llwybr garw'r mynydd oherwydd bod angen dŵr arnyn nhw i fyw.

Gofynnwch i'r plant os hoffen nhw orfod gwneud hyn fel tasg pob un dydd.

Dangoswch y cynhwysydd a gofynnwch am wirfoddolwr i ddod a cheisio'i godi a'i gario at ryw fan penodol yn yr ystafell. Mae'n bosib y bydd angen oedolyn i wneud hyn yn llwyddiannus!

Felly, mae bywyd i lawer o blant yn Uganda'n dra gwahanol i'n bywydau ni yma yng Nghymru.

❖ Stori Zoe am ei hymweliad ag Uganda – Power point

Eglurwch fod Zoe, Lee, Becca a Siwan, ym mis Gorffennaf 2014, wedi teithio i Uganda i ymweld â rhai Cristnogion sy'n gweithio'n galed iawn i helpu pobl dlawd mewn un ardal o'r brifddinas, Kampala. Mae llawer o'r bobl hynny'n sâl - mae HIV/Aids arnyn nhw. Mae nifer o'r plant yn amddifad - eu rhieni wedi marw o ganlyniad i salwch. Mae'r Cristnogion sy'n rhan o brosiect COBAP wir yn caru'r bobl yma ac am eu helpu i ddod i nabod Iesu a chael gwell bywyd.

Powerpoint: 'Ein stori' o wefan Dorcas – tudalen Adnoddau – ffolder Gwasanaeth teuluol

❖ Cân o Uganda

Er bod llawer o'r plant yn dlawd a heb rieni, maen nhw'n cael gofal da ac yn hapus. Byddai rhai ohonyn nhw wedi dysgu'r gân hon yn yr ysgol.

Cytgan Rukiga

Iwe ( ynghanu ehweh) mwana nikukunda – Fy mhlentyn rwy'n dy garu

Ego Yesu (ynghanu ehgo Yesw) nankunda – Iesu rwy'n dy garu

Nankunda Yesu, Yesu nankunda

Mae'r geiriau a'r ynganiad i'w gael ar Vimeo EBC, gyda Moses Tutesigensi o Henaduriaeth Mid Wales and Borders –*nad yw'r ffilm ar gael eto 9-9-14.*

❖ Hanes gwaith cymdeithas Wycliffe yn cyfieithu'r Beibl i rai o ieithoedd Uganda

• Gwers y 'Beibl dan glo'

*Fe fydd angen ichi gael Beibl wedi'i glymu â chadwyn a chlo arno.*

Dangoswch y Beibl ac esboniwch fod 200 o ieithoedd yn y byd heddiw sy heb yr un gair o'r Beibl yn eu hiaith eu hunain. Mewn rhyw ffordd, mae'r Beibl wedi'i 'gloi' iddyn nhw – oni bai fod ganddyn nhw'r Beibl, neu ran o'r Beibl yn eu hiaith eu hunain, ni chaen nhw gyfle i'w ddarllen drostyn nhw'u hunain a chael gwybod am Iesu.

Yn gynharach, fe glywson ni fod 43 o ieithoedd yn cael eu siarad yn Uganda, ond nid pob un ohonyn nhw sy â hyd yn oed rhan fach o'r Beibl yn eu hiaith.

• Mae sawl sefydliad sy'n dymuno cyfieithu'r Beibl i bob un o 43 iaith Uganda. Un o'r sefydliadau hynny ydi Wycliffe. Fe gewch chi lawer o wybodaeth am eu gwaith ar eu gwefan.

Mae un o'u prosiectau yn mynd dan yr enw Prosiect Poster Ysgrythur. Mae plant yn yr Unol Daleithiau - lle mae prif ganolfan Wycliffe - yn lliwio posteri gydag adnodau o'r Beibl yn un o ieithoedd Uganda ac yn eu danfon at y gweithwyr llythrennedd yn Uganda. Mae'r adnodau'n cyflawni 2 beth: maen nhw'n annog y plant i ddysgu darllen, gan eu bod yn cael eu gwobrwyo ag adnod pan fydden nhw'n cyrraedd targedau penodol ac yn ail, maen nhw'n dysgu adnodau Beiblaidd, yn eu gosod ar waliau eu cartrefi ac yn dweud wrth eu teuluoedd a'u ffrindiau be allen nhw'i ddarllen o Air Duw!

• Os oes amser a phobl gynnoch chi i wneud hyn, perfformiwch sgets. Mae sgets i'w gael ar wefan Dorcas – tudalen Adnoddau – ffolder Gwasanaeth teuluol – Stori Taku, sy'n dangos sut mae dysgu darllen yn gallu newid bywyd person.

• Neu fe allwch gysylltu hyn i gyd i waith Gruffydd Jones, Llanddowror a hanes sefydlu'r Ysgolion Sul yng Nghymru

❖ Adnod o Uganda i'w dysgu

'Carodd Duw y byd gymaint rhoddodd ei unig Fab' (Ioan 3:16)

Ahakuba Ruhanga yaakunzire ensi, akahayo Omwana-we omwe (Yohaana 3:16)

Fe fydd angen ichi sgwennu'r adnod – un gair ar y tro – ar falwnau.

Gofynnwch am wirfoddolwyr i ddod i ddal y balwnau. Darllenwch y geiriau yn araf a phwyllog, sawl gwaith.

Eglurwch mai'r adnod yn Gymraeg ydi, 'Ydy, mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab'.

Atgoffwch bawb mai dyma'r neges y mae tîm COBAP a chyfieithwyr Wycliffe am ei rannu gyda phobl Uganda.

Popiwch un o'r balwnau a gofyn i bawb ailadrodd yr adnod heb allu gweld y gair hwnnw. Ailadroddwch y broses hon hyd nes bod pob balwn wedi ei bopio a phawb yn gallu adrodd yr adnod trwy gofio.

- ❖ Canwch y Gân eto
- ❖ Gweddïau : dros waith COBAP, gwaith Wycliffe, dros Doreen a Jouvlet a phlant tebyg iddyn nhw, dros holl Gristnogion Uganda.  
Efallai yr hoffech rannu darnau o bapur a phensiliau/beiros rhwng pawb yn y gynulleidfa, er mwyn iddyn nhw gael sgwennu'u gweddïau eu hunain, ac yna'u casglu a darllen ambell un allan. Neu beth am wahodd rhai i ddarllen eu gweddïau yn agored. Anogwch bawb i weddio dros Uganda yn ddyddiol am yr wythnos ganlynol ac iddyn nhw fynd ar y we i ganfod mwy o wybodaeth drostyn nhw'u hunain.
- ❖ Emyn a gweddi i gloi

Os nad ydych chi fel arfer yn cael paned wedi'r gwasanaeth, efallai y byddai hyn yn beth braf i drefnu un y tro hyn. Gallwch wahodd pobl i wneud cyfraniad - pris coffi mewn caffi? - ac anfon y cyfraniadau at sefydliad cenhadol sy'n gweithio yn Uganda, e.e. Tearfund, Cymorth Cristnogol.

## Y cefndir i'r Ymweliad ag Uganda

Gwahodddwyd y bobl ifanc, pob un yn aelodau EBC, gan yr elusen Gristnogol Tearfund, i ymweld â phrosiect COBAP yn Kampala. Sefydlwyd COBAP (Rhaglen AIDS yn y Gymuned) fel ymateb lleol i HIV yn un o ardaloedd slym Rhanbarth Gorllewin Kampala. Mae COBAP yn ceisio galluogi pump o gymunedau slym Kampala i fynd i'r afael ag effeithiau HIV ac AIDS trwy hyfforddi gwirfoddolwyr cymunedol, rhaglenni addysg sgiliau bywyd a gofal a chefnogaeth i bobl sy'n byw gydag HIV a phlant amddifad. Maen nhw'n anelu at wneud hyn trwy alluogi pobl ifanc i wneud dewisiadau sgiliau bywyd cadarnhaol er mwyn lleihau eu gwendid tueddol tuag at HIV.

Pan gychwynnodd COBAP yn y 1990au cynnar, roedd hi'n ymdrech i godi brwdfrydedd yn y gymuned. Roedd aelodau'r gymuned yn cadw draw oddi wrth unrhyw beth i wneud â COBAP, yn bennaf gan fod lefelau uchel o stigma'n gysylltiedig ag HIV/AIDS. Yn ddiweddarach, fodd bynnag, dechreuodd bobl a oedd yn dioddef i gamu 'mlaen. Fe gawson nhw driniaeth am heintiau, cyngor ac ymweliadau cyson. Ymhen amser, tyfodd ymateb y gymuned i COBAP yn gyflym a bellach mae gwaith y sefydliad yn cael gwerthfawrogiad mawr. Datblygodd eu gweithgareddau i gynnwys yr holl brosiectau a restrir uchod, megis cefnogi micro-credyd a hyfforddiant sgiliau galwedigaethol.

Mae i waith COBAP bedwar rhan:

- gofal HIV/Aids
- Ymwneud â'r ieuenctid
- Gofal plant
- Meithrin gallu cymuned ac eglwys

### **Gall gweithgareddau tîm gynnwys:**

- Cynorthwyo mewn clybiau ysgol HIV/AIDS
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol
- Ymweliadau cartref â theuluoedd gyda phroblemau yn gysylltiedig ag HIV ac AIDS
- Helpu gyda phrosiectau datblygu sgiliau, e.e. gweu, gwehyddu, gwneud briciau, pobi, ayyb.
- Cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ganolfan i blant, e.e. astudiaethau Beiblaidd, gemau, hwyl!

- Mwy i'w weld wrth fynd i: [http://www.tearfund.org/en/ws/about\\_you/go\\_overseas/what\\_is\\_on\\_offer/partners/uganda\\_cobap/#sthash.1PKzAQZf.dpuf](http://www.tearfund.org/en/ws/about_you/go_overseas/what_is_on_offer/partners/uganda_cobap/#sthash.1PKzAQZf.dpuf)

## Sgets

Gofynnwch am wirfoddolwyr i actio'r canlynol:

Taku

'Swyddog o'r llywodraeth' gyda darn o bapur wedi'i rholio

1 neu 2 o bobl gyda ffyn – bydd papur newydd wedi'i rollo'n gwneud y tro

1 neu 2 o warchodwyr

'Gweinidog' yn dal arwydd yn dweud 'eglwys'

Fe fydd angen rhywun i adrodd/traethu a chymell y symudiadau priodol

Fe fydd angen Beibl a chwpan tafladwy hefyd

Gwnewch yn siŵr eu bod yn gwybod pa ran maen nhw i'w chwarae. Anogwch eich cast i actio'r stori wrth ichi'i hadrodd. Rhowch bwyslais ar y geiriau mewn print trwm, er mwyn iddyn nhw

wybod be i'w wneud. Cychwynnwech y sgets trwy ddweud:

*Adroddwr:*

Mewn pentref yn Uganda roedd dyn o'r enw Taku. Roedd yn 42 mlwydd oed. Doedd e erioed wedi bod mewn ysgol o unrhyw fath. Doedd neb yn y pentref yn ei hoffi, gan ei fod yn meddwi trwy'r amser ac yna chwilio am gyfle i ymladd ag unrhyw un a welai. Roedd ei wraig a'i blant yn aml yn ofnus iawn. Droeon fe anfonodd y pennaeth lleol bobl draw i'w guro...

*Rhowch y ffyn bambw (rholiau papur newydd) i'r ddau ddyn o'r pentref. Rhowch anogaeth iddyn nhw gymryd arnyd nhw eu bod yn taro Taku ar ei gefn.*

...ond fe fyddai'n rhedeg i ffwrdd i'r gwylltir am sbel. Doedd e'n bendant ddim yn mynd yn agos at eglwys.

Un diwrnod, penderfynodd swyddog o'r llywodraeth gael gwared ohono. Galwodd y swyddog yma am Taku, gan roi llythyr iddo.

*Mae "swyddog y llywodraeth" yn rhoi darn o bapur wedi'i rollo i Taku.*

Mae'n dweud, "Taku, dwi'n dy wneud di'n negesydd. Mae'n rhaid ichi gymryd hwn at y swyddog yn y dref nesaf. Mae'r neges yn sôn am y newyddion o'n pentref ni."

Felly i ffwrdd â Taku gyda'r nodyn ... ond wedi iddo gyrraedd yno, dyma swyddog y dref yn ei ddarllen ac yna'i daflu yn y carchar!

*Anogwch y ddau warchodwr i arwain Taku ymaith i'r 'carchar.'*

Tra roedd Taku'n eistedd yn ei gell yn y carchar, fe ddechreuodd feddwl a meddwl am y sefyllfa ddrwg roedd e ynndi. Yna daeth syniad i'w ben! Penderfynodd fod yn rhaid iddo ddysgu darllen, fel na fyddai unrhyw un yn gallu ei dwyllo fel yna byth eto. Felly, pan ddaeth allan o'r diwedd allan o'r carchar, fe aeth i'r eglwys a gofyn am gael mynd i'r dosbarth dysgu darllen i ddechreuwyd. Roedd bugail yr eglwys (yn dal arwydd 'eglwys') wedi synnu'n fawr ei weld, ond cytunodd i adael i Taku ymuno â'r dosbarth.

Diolch byth, fe ddysgodd Taku'n gyflym, ac wedi chwe mis, symudodd i fyny i'r safon nesaf, a dechrau darllen storïau o'r Beibl.

*Estynnwch Feibl a chwpan tafladwy i Taku.*

Newidiodd Duw galon Taku wrth iddo ddarllen y Beibl. Daeth yn Gristion go iawn, a rhoddodd y gorau i'w holl ddiota...

*Cael Taku i daflu'r gwpan tafladwy i ffwrdd.*

...a dechrau cymryd gofal o'i deulu. Erbyn hyn mae Taku yn nosbarth llythrennedd lefel pump ac yn swyddog llywodraeth ei hun, gan ei fod yn dangos cymaint o ddoethineb wrth ddal drwgweithredwyr!

*Dwedwch wrth y "swyddog llywodraeth" a dwyllodd Taku yn y gorffennol i drosglwyddo'r dystysgrif i Taku, gan ddweud,  
'Fedren nhw ddim twyllo Taku bellach!'*

Arweiniwch y plant i guro dwylo i'r actorion a rhowch gyfle iddyn nhw fynd nôl i'w seddau. Yna gofynnwch,

Be dych chi'n feddwl oedd gwir neges y geiriau ar y nodyn roddodd y swyddog i Taku?

Rhowch gyfle i'r plant sôn am y rheswm dros i Taku gael ei garcharu ac yna gofyn,

Sut wnaeth y gallu i ddarllen newid bywyd Taku?

Gadewch i'r plant ymateb, gan obeithio y bydd o leiaf un ohonyn nhw'n sôn fod Taku, wrth ddysgu darllen am y tro cyntaf, wedi cael darllen storïau o'r Beibl a dysgu am Dduw, a newidiodd ei galon.

On'd ydi'n gyffrous i weld sut wnaeth Duw ddefnyddio llythrennedd/dysgu darllen a'i Air, sef y Beibl, i chwyldroi bywyd Taku yn llwyr?